53rd Edition Rhifyn 53

# CLECS BRO CADER

A community newsletter for the Pencader area including
Cylchlythyr cymunedol ar gyfer ardal Pencader yn cynnwys

Alltwalis, Dolgran, Gwyddgrug, Llanfihangel-ar-Arth, New Inn, Pont Tyweli

Hydref 2011 **www.pencader.org.uk** October 2011

880 copi pob rhifyn – 880 copies every issue

## Pencader Family Centre

## Tenth Anniversary

How fast the time goes! The Family Centre started in October 2001, and now celebrates 10 years in existence. So many families have passed through its doors with so many stories to tell.

To celebrate the event the Family Centre will be holding an **OPEN DAY** on **Wednesday 26th October** with fun and games in the morning for families and children until 1.00pm. In the afternoon, the Centre will be open for visits from anyone interested in chatting to the staff and seeing how we have progressed over ten years. Refreshments will be available.

After a busy Summer, we are now into Autumn and have just started a ten week parenting course. (Tuesday mornings from 9.30 to 11.30) A creche is provided and we do recommend this enjoyable and important event. Also Baby massage is now on a Thursday morning and Lunch Club has reverted to Thursday as well.

Other events: A minibus will be going to the Botanic Gardens on the 12th October for a wonderful musical event promoted by Cheryl Beer. Finally, Lyn and Elaine will be with us on the 27th October (10 till 12) to make 3D greetings cards (£1.00 per card) If you can let us know beforehand about the subject for the card, it will help them in bringing appropriate material.

## Canolfan Deuluol Pencader

## Degfed Penblwydd

Pa mor gyflym y mae amser yn mynd yn ei flaen! Dechreuodd y Ganolfan Deuluol ym mis Hydref 2001 ac yn awr mae yn dathlu deng mlynedd o fodoliaeth. Mae na gymaint o deuluoedd wedi dod drwy'r drysau gyda llawer o storiau i ddweud.

I ddathlu'r achlysur mae'r Ganolfan yn cynnal **DIWRNOD AGORED** ar **ddydd Mercher Hydref 26ain** gyda hwyl a spri i deuluoedd a phlant yn y bore. Yn y prynhawn fydd y Ganolfan yn agored i ymwelwyr sydd a diddordeb yn sgwrsio â'r staff a gweld sut ydym wedi datblygu yn ystod y deng mlynedd. Bydd na luniaeth ar gael.

Ar ôl Haf prysur yr ydym yn awr i mewn i'r Hydref ac wedi dechrau ar gwrs o ddeng wythnos ar addysgiaeth i rieni.(Bore Mawrth 9.30 i 11.30) Darperir meithrinfa ac rydym yn argymhell y cyfleuster pleserus a phwysig hwn. Hefyd mae tylino i fabanod ar gael ar fore Iau a Chlwb Cinio wedi newid yn ôl i ddydd Iau.

Digwyddiadau eraill: Bydd na fws mini yn mynd i'r Gerddi Fotaneg ar Hydref 12fed i'r digwyddiad cerddorol hyfryd hyrwyddwyd gan Cheryl Beer. Yn olaf fydd Lyn ac Elaine gyda ni ar Hydref 27ain (10 tan 12) yn gwneud cardiau cyfarchion 3D (£1 pob cerdyn). Os fydd yn bosib a wnewch roi gwybodaeth o'r testun ymlaen llaw, fydd hyn yn gymorth at ddod â'r deunydd pwrpasol.

This issue of the newsletter has been funded by a grant from

**Statkraft Alltwalis Community Benefit Trust Fund**

Mae rhifyn hwn y cylchlythyr wedi cael ei ariannu gan grant oddi wrth

**Gronfa Fudd Fferm Wynt Statkraft Alltwalis**

## Cae’r Felin Primary School

Everyone at Cae’r Felin School is celebrating the publication of the school’s inspection report following the inspection of the school last May. It was reported that the school’s performance was good in all aspects with some features being recognised as excellent. It was noted that pupils of all ages make good progress in their learning, they enjoy coming to school and feel safe whilst there. Pupils of all ages have a secure understanding of how they can become healthy and they appreciate that healthy foods and regular exercise have a positive effect on their wellbeing and development. The rich range of learning experiences provided successfully meets the needs of the full range of pupils, employers and the community. It was noted that the quality of teaching is good and includes some examples of excellent teaching. The learning experiences promote pupils’ personal, social and cultural development very effectively. The school is a happy and inclusive community where pupils have equal access to all educational and social provision, with all staff working closely as a team.

Copies of the report are available from school or from Estyn’s website.

The school wishes to record its sincere appreciation to everyone who assisted in all preparations for the inspection and for their continued cooperation to ensure that all pupils at Cae’r Felin Community Primary School and the communities which it serves receive the best possible opportunities at all times.

**Wednesday 19th October 2011** – a harvest thanksgiving service will be held at the school hall at 1.30p.m. A warm welcome is extended to everyone.

## Ysgol Gynradd Cae’r Felin

Mae pawb yn Ysgol Gynradd Cae’r Felin yn dathlu wedi i adroddiad arolwg o’r ysgol (a gynhaliwyd yn mis Mai) gael ei gyhoeddi yn ystod gwyliau’r Haf. Adroddwyd bod perfformiad yr ysgol yn dda ymhob agwedd gyda rhai agweddau yn cael eu hadnabod fel nodweddion rhagorol. Cofnodwyd bod disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da mewn dysgu a’u bod yn mwynhau dod i’r ysgol gan deimlo’n ddiogel yno. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a’u datblygiad. Mae’r ystod gyfoethog o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion, cyflogwyr a’r gymuned yn llwyddiannus. Cofnodwyd bod ansawdd yr addysgu yn dda gyda rhai enghreifftiau o addysgu rhagorol. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol a diwyllianol y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae’r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff disgyblion hawl gyfartal i’r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol, gyda’r holl staff yn cydweithio’n agos fel tîm.

Mae copiau o’r adroddiad ar gael o’r ysgol neu ar safle wê Estyn.

Dymuna’r ysgol ddatgan eu gwerthfawrogiad didwyll i bawb a’u cefnogodd wrth baratoi ar gyfer yr arolwg ac am eu cydweithrediad i sicrhau bod holl blant Ysgol Cae’r Felin a’r cymunedau a wasanaethir ganddi yn derbyn y cyfleoedd gorau bosib ar bob achlysur.

**Dydd Mercher 19eg Hydref 2011** – cynhelir gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol yn neuadd yr ysgol am 1.30y.p. Croeso cynnes i bawb.

## Community Council Notes

**June 2011**
Aneurin Davies chaired the meeting in June. Val Davies agreed to attend the Annual Meeting (Un Llais Cymru)on October 8th with the Clerk. The Clerk is expecting to hear from Simon Troake (County Council – Tidy Towns) concerning establishing the Picnic Area at the top of Talog road. The County Council has replied to the concerns of the Community Council and Pontweli residents about the lack of parking places for the new allotments. Since the project is to relocate the allotments, this is done on a "like for like" basis. As there was no parking provision for the original ones, it is felt there is no need for parking places for the new ones. Abbey Masonery is going to send someone out to give a price for cleaning the soldier on the War Memorial. Plans were received from the County Council outlining their intention to improve bus stops on Pencader square. Because of the absence of a shelter on Gwyddgrug road, a letter of complaint will be sent. A letter of complaint about the poor state of New Inn School yard will also be sent. It was passed that we would pay for planting the flower troughs again this year.

## Nodiadau'r Cyngor Cymuned

**Mehefin 2011**
Gwnaeth Aneurin Davies waith y cadeirydd yng nghyfarfod Mis Mehefin.
Cytunodd Val Davies fynychu'r Gynhadledd Flynyddol (Un Llais Cymru) ar Hydref 8ed gyda'r Clerc.
Mae'r Clerc yn disgwyl clywed oddiwrth Simon Troake (Cyngor Sir Gâr-Tidy Towns) ynglŷn â sefydlu'r Ardal Bicnic ar dop hewl Talog. Mae'r Cyngor Sir wedi ymateb i ofidiau'r Cyngor Cymuned, a thrigolion Pontweli, am ddiffyg llefydd parcio i'r rhandiroedd newydd. Gan mai ail leoli'r rhandiroedd yw'r prosiect, gwneir hyn fel "like for like". Felly gan nad oedd darpariaeth parcio i'r gwreiddiol, teimlir nad oes angen llefydd parcio i'r rhai newydd.
Mae Abbey Masonery yn mynd i anfon rhywun allan i roi pris am olchi'r milwr ar y Gofgolofn. Derbyniwyd cynlluniau oddiwrth y Cyngor Sir yn amlinellu eu bwriad i wella'r safleoedd bws ar sgwâr Pencader. Oherwydd absenoldeb safle ar hewl Gwyddgrug, anfonir llythyr i gwyno. Bydd llythyr o gwyn hefyd yn mynd am gyflwr gwael iard Ysgol New Inn. Pasiwyd ein bod yn talu am blannu blodau'r cafnau eleni eto.

## Local Eisteddfod

It is hoped the programme for next year's Eisteddfod will be available by late October from local shops, Neuadd yr Ysgol and committee members. The costs of holding this important cultural event in our community continue to rise. We would therefore be grateful for any contributions which should be sent to the Eisteddfod Treasurer, Aileen Davies, Bryn-y-Coed, Pencader, SA39 9AD, 384217. For more information please contact one of the joint secretaries Margaret Bowen, 362215, wernmacwydd@supanet.com or Gerald Coles, 384987, geraldcoles@supanet.com.

## Eisteddfod Leol

Gobeithir y bydd rhaglen Eisteddfod y flwyddyn nesaf ar gael erbyn diwedd mis Hydref. Mae costau cynnal y digwyddiad diwylliannol pwysig hwn yn ein cymuned yn dal i godi. Byddem yn ddiolchgar, felly, am unrhyw gyfraniadau a ddylai gael eu hanfon at Drysorydd yr Eisteddfod, Aileen Davies, Bryn-y-Coed, Pencader, SA39 9AD, 384217. Am fwy o wybodaeth cysylltwch, os gwelwch yn dda, ag un o'r cyd-ysgrifenyddion Margaret Bowen. 362215, wernmacwydd@supanet.com neu Gerald Coles, 384987, geraldcoles@supanet.com.

## ***Come and meet your County Councillor***

I'll be at
**Pencader Pavilion**

**FIRST WEDNESDAY** of EVERY MONTH
Between 6 and 7pm

Call in to discuss any matter on a 1/1 basis

Or feel free to call me on – 077921 99161

**The Police will also be present to discuss any concerns**

## ***Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorydd Sir***

Byddaf yn
**Y Pafiliwn - Pencader**

**NOS FERCHER CYNTAF** – POB MIS
Rhwng 6 a 7yh

Galwch am sgwrs 1/1 ar unrhyw fater

Neu ffoniwch ar – 077921 99161

**Bydd yr Heddlu'n bresennol hefyd i drafod unrhyw pryderon**

### Pencader Scout Group

We have started the new term with some brilliant news as we have received a grant from the Statkraft Alltwalis Community Benefit Trust Fund which will enable us to buy some new and exciting games and sports equipment as well as other Group equipment. The Group would like to thank the Trustees for their support.

We continue to meet on Tuesdays at the Church Hall. Beavers is for girls and boys aged 6 to 8 and runs from 5pm until 6.15. Cubs is for boys and girls aged between 8 and 10 and a half and meets from 6.30pm until 8pm.

Everyone is welcome!

For more information please contact Liz or Simon on 384697.

### Grŵp Sgowtio Pencader

Rydym wedi dechrau'r tymor newydd gyda rhai newyddion gwych gan ein bod wedi derbyn grant o Gronfa Fudd Fferm Wynt Statkraft Alltwalis a fydd ein galluogi i brynu rhai gemau newydd a chyffrous ac offer chwaraeon yn ogystal ag offer Grŵp eraill. Hoffai'r Grŵp ddiolch i'r Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth.

Rydym yn dal i gwrdd ar ddydd Mawrth yn Neuadd yr Eglwys. Mae Afancod i ferched a bechgyn 6 i 8 oed ac yn rhedeg o 5yp i 6.15. Mae Cybiau i fechgyn a merched rhwng 8 oed a 10 a hanner ac yn cwrdd o 6.30 i 8yh.

Mae croeso i bawb!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Liz neu Simon ar 384697 os gwelwch yn dda.

## Horticultural Show

## Sioe Arddwriaethol

This year's community Show was held in Ysgol Cae'r Felin on September 10th. There were once again a large number of individual entries, 226 in total, and also more than 80 paintings and greeting cards made by the school children.

Cynhaliwyd y Sioe gymunedol eleni yn Ysgol Cae'r Felin ar Fedi 10fed. Unwaith eto roedd nifer mawr o geisiadau unigol, cyfanswm o 226, a hefyd mwy na 80 o luniau a chardiau cyfarchion wedi eu gwneud gan blant yr ysgol.



In the Garden Produce section there was keen competition in nearly all the classes, especially for runner beans, carrots, potatoes and leeks. The winner was Eric Jones. The photo shows him being presented with a cup by Councillor Linda Evans.

Yn yr adran Gynnyrch yr Ardd bu cystadleuaeth ffrwd yn bron pob un o'r dosbarthiadau, yn arbennig ffa dringo, moron, tatws a chennin. Yr enillydd oedd Eric Jones. Mae'r llun yn dangos iddo gael ei gyflwyno â chwpan gan Gynghorydd Linda Evans.



Unfortunately the recent poor weather affected entries in the Flowers section. Despite this there were some lovely displays and Janet Jones won the Oliver Evans Shield for the most points.

Yn anffodus effeithiodd y tywydd gwael diweddar ar y ceisiadau yn adran y Blodau. Serch hyn roedd rhai arddangosfeydd hyfryd ac enillodd Janet Jones Darian Oliver Evans am y mwyaf o bwyntiau.



There were a large number of competitors in the Cookery section who kept the judge busy assessing all their produce. The winner was Karen Bowen who received the Helen Rose Wilson Memorial Cup from Mrs Fenna, Helen's mother.

Roedd llawer o gystadleuwyr yn yr adran Goginio a gadwodd y beirniad yn brysur gan asesu'u cynnyrch i gyd. Yr enillydd oedd Karen Bowen a dderbyniodd Gwpan Coffa Helen Rose Wilson oddi wrth Mrs Fenna, mam Helen.




The Handicrafts section was well supported and Christine Harrison was awarded the winner's shield.

Cefnogwyd yr adran Grefftau'n dda a gwobrwywyd Christine Harrison â tharian yr enillydd.

In the children's section the judge commented particularly on the very high standard of the Greeting Cards made by years 5 and 6.
The overall winner with the most points was Gwenny Radford who received a cup kindly donated by Avril of The Greenhouse.



Yn adran y plant sylwodd y beirniad yn arbennig ar safon uchel iawn y Cardiau Cyfarchion a wnaed gan flwyddyn 5 a 6.
Yr enillydd gyda'r mwyaf o bwyntiau oedd Gwenny Radford a dderbyniodd gwpan a roddwyd yn garedig gan Avril o'r Tŷ Gwyrdd.

This year Councillor Linda Evans donated a cup for the person with the most points in the entire show and this was awarded to Janet Jones.

We would like to thank the judges, Charlie, Sue Page, Eiros, Jane B, Mary J and Reg, and the stewards Avis, Kate, Eileen W, Margaret W, Sally, Jackie and Christine C. Ann P, Lynn and Jeanette were willing helpers on the day. We are very grateful to everyone who contributed in any way to the Show's success.

Eleni rhoddodd Cynghorydd Linda Evans gwpan am yr unigolyn gyda'r mwyaf o bwyntiau yn y sioe gyfan ac fe'i gwobrwywyd i Janet Jones.

Hoffem ddiolch i'r beirniad, Charlie, Sue Page, Eiros, Jane B, Mary J a Reg, a'r stiwardiaid. Avis, Kate, Eileen W, Margaret W, Sally, Jackie a Christine C. Ann P, Lynn a Jeanette oedd helpwyr bodlon ar y dydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i unrhyw un a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i lwyddiant y Sioe.

## Winners / Enillwyr

**Garden Produce/Cynnyrch yr Ardd**

Basket of vegetables
1. Calvin Griffiths
2. Eric Jones

3 Runner beans
1. Huw Jones
2. Huw Jones

3 Carrots
1. Eric Jones
2. Huw Jones

3 Onions
1. Huw Jones
2. Eric Jones

3 Potatoes
1. Eric Jones
2. Huw Jones

3 Tomatoes
1. Eric Jones
2. Gerald Coles

3 Fruits on a plate
1. Huw Jones

## Enillwyr / Winners

Cabbage
1. Calvin Griffiths
2. Calvin Griffiths

3 Beetroot
1. Eric Jones
2. Eric Jones

3 Leeks
1. Calvin Griffiths
2. Eric Jones

**Flowers/Blodau**

Foliage pot plant
1. Janet Jones

Flowering pot plant
1. Janet Jones

Cacti / succulents
1. Christine Harrison
2. Christine Harrison

2 Roses
1. Janet Jones
2. Janet Jones

Vase of mixed flowers
1. Jackie Ritchie
2. Janet Jones

5 Pansies
1. Janet Jones
2. Janet Jones

3 Dahlias
1. David Harrison

**Cookery/Coginio**
Bara Brith
1. Christine Harrison
2. Mwynwen Jones

6 Welsh cakes
1. Karen Bowen
2. Karen Bowen

Plate of Flapjacks
1. Bridget Radford
2. Gwenny Radford

Savoury or sweet pastry dish
1. Karen Bowen
2. Janet Jones

Victoria Sandwich
1. Mwynwen Jones
2. Janet Jones

Lemon drizzle cake
1. Ann Phillips
2. Yvonne Lewis

6 Eggs
1. Lynn Bushin

Jar of fruit jam or jelly
1. Janet Jones
2. Bridget Radford

Jar of chutney/relish
1. Ann Phillips
2. Janet Jones

Bottle of home-made wine
1. Peter Goodwin
2. Peter Goodwin

**Handicrafts/Crefftau**
Something new from old
1. Calvin Griffiths
2. Bridget Radford

Article for a baby
1. Christine Harrison
2. Christine Harrison

Cross stitch
1. Sian Phillips
2. Christine Harrison

Hand-made jewellery
1. Jane Griffiths
2. Jane Griffiths

Crochet, lace or tatting
1. Ann Phillips
2. Christine Harrison

Scarf or hat
1. Janice Jones
2. Christine Harrison

Tapestry
1. Jane Griffiths
2. Sian Phillips

Photo of local building
1. Eliza Trigwell
2. Bridget Radford

Hand-made wood item
1. Gerald Coles
2. Gerald Coles

Painting
1. David Harrison
2. Jackie Ritchie

**Chidren/Plant**
Painting (Nursery & Reception)
1. Leisa
2. Tabitha

Decorated stone
1. Tabitha Radford
2. Lia Wood

Painting (Yrs 1 & 2)
1. Tiah Freeman
2. Glyn Williams

Painting (Yrs 3 & 4)
1. Ella Burns
2. Osian Lewis

Bracelet
1. Gwenny Radford

Miniature garden
1. Sophia Trigwell
2. Gwenny Radford

Monster
1. Gwenny Radford
2. Monty Radford

Greeting Card (Yrs 5 & 6)
1. Mared Phillips
2. Steven Harris

Bracelet
1. Nerys Jones
2. Nerys Jones

4 decorated biscuits (age 11-16)
1. Tom
2. Tyler

**Neuadd yr Ysgol**

The Llanfihangel Hall Committee is now looking forward to the new term. Since we are now owners of the building, it will need quite a bit of improvement and renovation work, and we are also keen that the activities continue without too much interruption. The Welsh classes will continue – for beginners on Wednesdays (from 10 am in the morning until 2.30 pm in the afternoon), and the intermediate course on Fridays at the same times. If anyone is interested in attending these courses, let Meinir know (384378) or anyone on the committee. The Sunday School and the Urdd will also be restarting their programme and preparations are underway for the Eisteddfod in February. The History Club has an interesting programme and there is a welcome for anyone to join the club which meets every other Thursday in the Hall – contact Calvin (384812) or Gerald (384987).

A Public Meeting will be held on **October 25th** with a warm invitation to everyone in the village to come and hear about what is happening in the Hall and to give their own ideas for the future. Following the meeting the Annual General Meeting will be held to elect officers and a committee for the year to come – a warm welcome to everyone to come and join us and have a cup of tea and a biscuit.

Dates to keep in mind:
**November 18th** - Christmas Fair
**December 2nd** – Bingo in the Eagle

**Neuadd yr Ysgol**

Mae Pwyllgor Neuadd Llanfihangel nawr yn disgwyl mlaen am y tymor newydd. Gan ein bod bellach yn berchnogion ar yr adeilad mae angen gwneud tipyn o waith gwella ac atgyweirio arno, ond rydym hefyd yn awyddus bod y gweithgareddau yn parhau heb ormod o dorri ar eu traws.
Bydd dosbarthiadau Cymraeg yn parhau - i ddechreuwyr ar ddyddiau Mercher (o 10 y bore nes 2.30 y p'nawn) a chwrs canolradd ar ddydd Gwener am yr un oriau. Os oes gan unrhywun ddiddordeb yn mynychu un o'r cyrsiau hyn, rhowch wybod i Meinir (384378) neu unrhywun o'r pwyllgor.
Bydd yr Ysgol Sul a'r Urdd hefyd yn ail-gydio yn eu gwaith ac mae'r paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer yr Eisteddfod ym mis Chwefror. Mae gan y Clwb hanes raglen ddiddorol ac mae croeso i unrhyw rai ymuno gyda'r clwb sydd yn cwrdd bob yn ail nos Iau yn y Neuadd - cysylltwch gyda Calvin (384812) neu Gerald (384987).

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ar **Hydref 25ain** gyda gwahoddiad cynnes i bawb yn y pentref i ddod i glywed am yr hyn sy'n digwydd yn y Neuadd ac i roi eu syniadau eu hunain am y dyfodol. Yn dilyn y cyfarfod hwn cynhelir y Cyfarfod Blynyddol i ethol swyddogion a phwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod - mae croeso cynnes i bawb i ddod i ymuno gyda ni ac i gael dishgled o de a bisgien!

Dyddiadau i gadw mewn cof :
**Tachwedd 18** - Ffair Nadolig
**Rhagfyr 2ail** - Bingo yn yr Eagles.

**Llandysul Country Market**

The market has been very successful since coming to Pencader and will continue on a Saturday each month up to Christmas, October 1st, November 12th and December 10th, 10am to 1pm in the Pavilion.
Home baking, plants, crafts.

**Marchnad Gefn Wlad Llandysul**

Mae’r farchnad wedi bod yn llwyddiannus iawn ers dod i Bencader a bydd yn parhau ar ddydd Sadwrn pob mis tan y Nadolig, Hydref 1af, Tachwedd 12fed a Rhagfyr 10fed, 10yb i 1yp yn y Pafiliwn.
Pobi cartref, planhigion, crefftau.

## CHRISTMAS FAIR

**Neuadd yr Ysgol**
**Llanfihangel**

**Friday November 18th**
**7.30pm**

**President**
**Miss Wendy Williams, Aberystwyth**

**China, books, cakes, crafts,**
**toys, raffle**
**Bargains**

**Activities for children**

**Admission £1**
**Tea and cakes free of charge**

## FFAIR NADOLIG

**Neuadd yr Ysgol**
**Llanfihangel**

**Nos Wener Tachwedd 18fed**
**7.30yh**

**Llywydd**
**Miss Wendy Williams, Aberystwyth**

**Llestri, llyfrau, cacennau, crefftau,**
**teganau, raffl**
**Bargeinion**

**Gweithgareddau i blant**

**Tâl mynediad £1**
**Te a chacennau am ddim**

**Welsh History and Culture**

**A short course for**
**Newcomers**

**Neuadd yr Ysgol**
**Llanfihangel**

**Tuesday Evening**

**7 – 9pm**

**Phone 384378 for more**
**information**

**Hanes a Diwylliant Cymru**

**Cwrs byr i**
**Fewnfudwyr**

**Neuadd yr Ysgol**
**Llanfihangel**

**Nos Fawrth**

**7 – 9yh**

**Ffoniwch 384378 am fwy o**
**wybodaeth**

**Intensive Welsh for Beginners**

**Neuadd yr Ysgol**
**Llanfihangel**

**Wednesdays**
**10am – 2.30pm**

**Phone 384378**
**for more details**

**Cymraeg Ddwys i Ddechreuwyr**

**Neuadd yr Ysgol**
**Llanfihangel**

**Dydd Mercher**
**10yb – 2.30yp**

**Ffoniwch 384378**
**am fwy o fanylion**

## New Pencader and District Web Site

The Regeneration Group is pleased to announce that the redesigned Pencader & District Web site is now online at www.pencader.org.uk.

Our thanks go to Clare and Lewis at CAVS Web Services for their work in making this transformation possible.
Most of what was on the original site is still available, but the really significant change is that the Group now has full control of the content. Volunteers from the Group and other local organisations can now add information and update news items without expense or the need for advanced skills. Comments can be made by all visitors to the pages.

This will make the Pencader & District Web site more involving and interactive, reflecting more of our community, its people, activities and services.
It is not intended that this new Web site will replace Clecs Bro Cader in any way. However, items from Clecs may appear on the site and it is hoped that copies of published editions will be available in PDF format for download.
Suggestions and contributions to improve the Web site are welcome. Please contact us at pencaderweb@f2s.com or via the Contact page on the Web site.
If you contact us and don't receive a response we apologise. It is still early days for this venture and we are still learning and organising. We value all your feedback as this is what will help to make the new website a success.

## Gwefan Newydd Pencader a'r Cylch

Mae'r Grŵp Adfywiad yn falch cyhoeddi bod safle Pencader a'r Cylch wedi'i ailgynllunio ar lein nawr ar www.pencader.org.uk.

Mae'n diolchiadau ni'n mynd i Clare a Lewis yn *CAVS Web Services* am eu gwaith o wneud y trawsnewid yn bosibl.
Mae'r mwyaf o beth oedd ar y safle gwreiddiol, yn dal ar gael ond y newid gwir arwyddocaol yw bod rheolaeth lawn y cynnwys gan y Grŵp. Gall gwirfoddolwyr o'r Grŵp a sefydliadau lleol eraill adio gwybodaeth a diweddaru eitemau newyddion nawr heb gost neu'r angen am sgiliau uwch. Gall sylwadau gael eu gwneud gan bob ymwelydd i'r tudalennau.

Bydd hyn yn gwneud gwefan Pencader a'r Cylch yn fwy rhyngweithiol, gan adlewyrchu mwy am ein cymuned, ei phobl, gweithgareddau a gwasanaethau.
Ni fwriedir y bydd y Wefan newydd hon yn cymryd lle Clecs Bro Cader mewn unrhyw ffordd. Serch hynny gallai eitemau o Glecs ymddangos ar y safle a gobeithir y bydd copïau rhifynnau wedi eu cyhoeddi ar gael mewn fformat PDF i'w dadlwytho.
Mae croeso i awgrymiadau a chyfraniadau i wella'r Wefan. Cysylltwch â ni ar pencaderweb@f2s.com neu gan ddefnyddio'r dudalen Cyswllt ar y wefan.
Os ydych yn cysylltu â ni a pheidio â chael ymateb, rydym yn ymddiheuro. Mae'n dal i fod dyddiau cynnar i'r fenter hon ac rydym yn dal i ddysgu a threfnu. Rydym yn gwerthfawrogi'ch holl adborth achos bydd hwn yn helpu gwneud y wefan yn llwyddiant.

## Recycling Facilities

Please remember that there are recycling facilities for glass, cans, paper and clothes in the yard of Ysgol Cae'r Felin, Pencader.

## Cyfleusterau Ail-gylchu

Cofiwch, os gwelwch yn dda, bod cyfleusterau ail-gylchu i wydr, caniau, papur a dillad yn iard Ysgol Cae'r Felin, Pencader.

## Gardening Competition

Once again there were a large number of colourful displays and this year the judges found it harder as there was an improvement in the standard of gardens in the Parish. The following were the winners.

Best hanging basket – Tŷ Ni, Pencader

Best tub, trough or planter – Beehive, Pencader

Best estate garden – 83 Maescader, Pencader

Best front garden – Delwyn, Pencader

Most colourful front garden – Dwylan, Pencader

We would like to thank Inspiration Lifestyle Services for donating two of the prizes and the County for sponsoring the estate garden competition. Finally we are very grateful to Chris and Frances Fuller for judging the entries.

## Cystadleuaeth Arddio

Unwaith eto bu nifer mawr o arddangosfeydd lliwgar ac eleni cafodd y beirniaid fwy o anhawster oherwydd bod gwelliant yn safonau'r gerddi yn y Plwyf.
Yr enillwyr oedd y canlynol.

Y fasged grog orau – Tŷ Ni, Pencader

Y twba, cafn neu ddysgl gorau – Beehive, Pencader

Yr ardd stâd orau – 83 Maescader, Pencader

Yr ardd ffrynt orau – Delwyn, Pencader

Yr ardd ffrynt fwyaf lliwgar – Dwylan, Pencader

Hoffem ddiolch i Inspiration Lifestyle Services am roi dwy o'r gwobrau ac i'r Sir am noddi cystadleuaeth yr ardd stâd. Yn olaf rydym yn ddiolchgar iawn i Chris a Frances Fuller am feirniadu'r ceisiadau.

## Eisteddfod Success

Congratulations to Rhian Davies, Pencader, on winning the Recitation age 19 – 25 in the Urdd National Eisteddfod. As a result she will be taking part in the competition for the prestigious Bryn Terfel Scholarship. Congratulations also to Hanna Medi Davies, Gwyddgrug, for winning the Solo and coming second in the Cerdd Dant for years 3 and 4 in the same Eisteddfod.

## Llwyddiant Eisteddfod

Llongyfarchiadau i Rhian Davies, Pencader, ar ennill Llefaru 19 – 25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Fel canlyniad bydd hi'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth am yr Ysgoloriaeth Bryn Terfel clodfawr. Llongyfarchiadau hefyd i Hanna Medi Davies, Gwyddgrug, am ennill yr Unawd ac am ddod yn ail yn y Gerdd Dant i flwyddyn 3 a 4 yn yr un Eisteddfod.

## Diamond Wedding

Many congratulations to Sally and Gwilym Richards, Pencader, who recently celebrated their diamond wedding.

## Priodas Diemwnt

Llawer o longyfarchiadau i Sally a Gwilym Richards, Pencader, a ddathlodd eu priodas diemwnt yn ddiweddar.

## Harvest Services

### Church in Wales

**St Michaels Church Llanfihangel**
**Wednesday October 5th**
10 am Bilingual Holy Communion
7pm Bilingual Evening Prayer and Sermon
Rev Peter Davies, Abergwili

### Welsh Independents

**Tabernacle Chapel, Pencader**
**Wednesday October 26th**
Prayer service 10.30am
Service with sermon 2pm and 6.30pm
Rev Gerwyn Jones, Llandovery

### Methodists

**Salem Chapel, New Inn**
**Monday October 4th**
Service 2pm

### Baptists

**Moriah Chapel, Pencader**
**Sunday October 9th**
Service 10.30am

A warm welcome to everyone in any of these services

### Christian Aid 2011

A cheque for £1900 has been presented at the Christian Aid office in Carmarthen following the annual collection during May this year. It's organised by the Pencader and district Committee and the officials wish to thank everyone who contributed towards this worthy cause, also to all collectors who so readily gave their time in ensuring the collection's success.

| | |
|---|---|
| Rev Rheinallt Davies | Chairman |
| Marina Davies | Treasurer |
| Fioled Jones | Secretary |

## Cyrddau Diolchgarwch

### Eglwys Yng Nghymru

**Eglwys Sant Mihangel Llanfihangel**
**Dydd Mercher Hydref 5ed**
10yb Cymun Bendigaid Dwyieithog
7yh Hwyrol Weddi Ddwyieithog a Phregeth
Parch Peter Davies, Abergwili

### Annibynwyr

**Capel Tabernacl, Pencader**
**Dydd Mercher Hydref 26ain**
Oedfa weddi 10.30yb
Pregeth 2yp a 6.30yh
Parch Gerwyn Jones, Llanymddyfri

### Methodistiaid

**Capel Salem, New Inn**
**Dydd Llun Hydref 4ydd**
Cwrdd 2yp

### Bedyddwyr

**Capel Moriah, Pencader**
**Dydd Sul Hydref 9fed**
Cwrdd 10.30yb

Croes cynnes i bawb yn unrhyw un o'r cyrddau hyn

### Cymorth Cristnogol 2011

Mae siec o £1900 wedi ei chyflwyno i swyddfa Cymorth Cristnogol, Caerfyrddin, yn dilyn casgliad blynyddol Mis Mai eleni. Trefnir gan aelodau Pwyllgor Pencader a'r cylch ac mae'r swyddogion am ddiolch yn fawr iawn i bob un a gyfranodd tuag at yr achos teilwng yma, ac i'r casglyddion a fu mor barod i roi o'i hamser i sicrhau llwyddiant y casgliad.

| | |
|---|---|
| Parch Rheinallt Davies | Cadeirydd |
| Marina Davies | Trysorydd |
| Fioled Jones | Ysgrifennydd |

## Pwerdy-Powerhouse

The first exhibition at the Powerhouse, Pont-tyweli Llandysul was a huge success and was visited by local people and tourists. It proved to be a very popular venue and requests were made by other local artists to display their work at future exhibitions at the centre. Artists included Lynda Guy, Jeff Beer, Charlotte Davies, Jenny Mynett, Elaine Graham, Sarah Wentworth, Ian Wilson, John Blake, Gerallt Hughes, and Suzanne Hughes-Owen.

**Free drop-in Computer classes** - every Tuesday from September 6th 10-12pm.

**Welsh Weigh** every Tuesday from September 6th 10-11am

**Free computer class** every Tuesday from September 6th, 5-7pm, an opportunity for you to tell a story, bring photos and archive your story in the Virtual Library.

**Llandysul Merched Y Wawr** meet on the second Thursday of the month from 8th September.

**Singing with Erin** – taster session on Tuesday September 20th 6 -7.30pm and then every Tuesday for 10 weeks starting October 4th 6-7.30pm

